**PWYLLGOR GWARCHOD FFORESTYDD CYMRU**

**COFNODION**

Dyddiad: Medi 9fed, 2011

Lleoliad: Neuadd y Pentref, Penuchaf

Presennol: Huw Pritchard (Cadeirydd), Richard Ashcroft (Is-gadeirydd), Hilda Prys (Ysgrifennydd), Sonia Spencer (Trysorydd), Albert Williams, George Thomas, Gwenda Jones.

Ymddiheuriadau: Gwynfor Roberts, Nia Grosky.

**1. Croeso'r Cadeirydd**

Estynnodd y Cadeirydd groeso nôl i bawb wedi'r seibiant dros yr haf.

**2. Cofnodion y cyfarfod diwethaf**

Darllenwyd cofnodion cyfarfod Mehefin 6ed ac fe'u cafwyd yn gywir. Gofynnwyd a oedd pob aelod o'r pwyllgor wedi cael amser i astudio canfyddiadau'r adroddiad, "Coetiroedd a choedwigoedd Cymru – atebion Ewropeaidd ar gyfer y dyfodol". Cafwyd ateb cadarnhaol.

**3. Materion a drafodwyd**

Yn y cyfarfod diwethaf roedd Albert Williams wedi awgrymu y dylid astudio 'Coetiroedd a choedwigoedd Cymru – atebion Ewropeaidd ar gyfer y dyfodol' gan fod holl ddulliau ymarfer gorau diweddaraf ar draws Ewrop ynddo. Aethpwyd ymlaen i drafod y camau yn y frwydr i gadw'n coedwigoedd er gwaethaf y newid yn yr hinsawdd.

1. Awgrymodd Sonia Spencer y dylid cynyddu niferoedd yr ardaloedd hamdden yn y coetiroedd gan y byddai yn rhoi mwy o fanteision iechyd ac yn rhoi mwy o goed.
2. Dadleuodd Gwenda Jones, er y byddai mwy o ardaloedd hamdden yn llesol i iechyd na fyddai, o angenrheidrwydd, yn golygu mwy o goed. Ychwanegodd fod gan Lywodraeth Cymru nod o greu 100,000 hectar ychwanegol o goedwigoedd newydd erbyn 2030, beth bynnag. Yn ei barn hi arbed ein coedwigoedd rhag y newid yn yr hinsawdd ddylai fod yn flaenoriaeth.
3. Cafodd gefnogaeth gweddill aelodau'r pwyllgor ac aethpwyd ymlaen i drafod sut y gall coed helpu i daclo'r problemau wrth i batrymau tywydd newid.

4. Eglurodd Chris Butler fod technegau peirianneg gwyrdd, fel plannu coed ar lannau afonydd a chreu argaeau o goed mân yn ffordd rad, effeithlon a chynaliadawy o wella'n hamddiffynfeydd llifogydd. Cytunwyd y byddai Asiantaeth yr Amgylchedd yn croesawu hyn yn frwd gan gofio bod mwy na 375,000 eiddo – sef un o bob chwech – mewn perygl o lifogydd yng Nghymru. Byddai plannu coed ar lannau afonydd hefyd yn gwella ansawdd y dŵr drwy rwystro erydu a hidlo gwaddodion a halogyddion.Wedi cryn drafod penderfynwyd mai yn ardal Sir Drefaldwyn y dylid arbrofi gyda hyn.
5. Mynegwyd pryder ynglŷn â'r posibilrwydd y gallai gostyngiad yn y glaw a gawn arwain at brinder dŵr yn ein planhigfeydd pinwydd sydd, yn ei dro, yn arwain at heintiau'n difetha coedwigoedd.
6. Wedi trafod yn fanwl cynigiodd Gwenda Jones y dylid:
    - ystyried y posibilrwydd o blannu 'coedwigoedd plastig', cymysgedd o rywogaethau nad yw'r un haint yn effeithio ar bob un.
    - creu coedwigoedd o rywogaethau ac oedran cymysg. Byddai coedwigoedd amrywiol yn sicrhau dyfodol y goedwig beth bynnag yr hinsawdd. Pe bai rhai'n methu byddai eraill, gyda nodweddion gwahanol, yn goroesi.
    - cysylltu ag ymchwilwyr coedwigoedd sy'n bridio rhywogaethau newydd o'r rhywogaethau coed traddodiadol gyda nodweddion arbennig a fydd yn eu galluogi i addasu i newidiadau yn yr hinsawdd. Dywedodd Chris Butler ei fod wedi clywed bod y coed hyn yn cloi carbon yn gyflymach, ac yn rhywogaethau hynod o gynhyrchiol sy'n tyfu'n gyflym ac yn goed y gellir eu defnyddio ar gyfer adeiladu, yn lle strwythurau concrid a dur sy'n gollwng llawer o garbon.
7. Cafodd ei heilio gan Richard Ashcroft.Cynigiodd ef ymhellach y byddai'n dda o beth pe gellid gwahodd ymchwilwyr coedwigoedd i ddod i roi arweiniad i ni yn ein cyfarfod nesaf ar beirianneg gwyrdd, coedwigoedd o rywogaethau ac oedran cymysg a choedwigoedd fydd yn gallu addasu i newid hinsawdd. Cytunwyd yn unfrydol.

Penderfynwyd cynnal cyfarfod nesaf y pwyllgor nos Iau, Hydref 6ed am 7-30 pm yn Neuadd y Pentref, Penuchaf.